Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed sydd ag anghenion caffael Saesneg?

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE
SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

GORFFENNAF 2009

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol (GAALlau);
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **2**

Diffiniadau 2
Nodi anghenion medrau sylfaenol 2
Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru 3

**Prif ganfyddiadau** **4**

**Argymhellion** **7**

**Rheoli'r ddarpariaeth** **8**

**Trosglwyddo rhwng darparwyr a chyfnodau addysg** **10**

**Asesiad cychwynnol o anghenion dysgwyr** **12**

**Cymorth ar gyfer dysgwyr** **13**

**Cynnydd wrth ddysgu** **14**

**Geirfa**

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg**

## Cyflwyniad

1 Mae trafodaethau gyda'r Grŵp Ymgynghori Gweinidogol ar Amrywiaeth Ethnig a Diwylliannol, rhwydwaith Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig Awdurdodau Addysg Lleol (CLlEAALlau) a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen SSIE wedi dangos bod angen datblygu dealltwriaeth gliriach o ddulliau mewn perthynas â nodi a mynd i'r afael ag anghenion caffael Saesneg.

2 Diben y cylch gwaith hwn yw mesur lefel yr angen mewn perthynas â chaffael Saesneg ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed sydd mewn addysg a hyfforddiant.

3 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig y mae Saesneg yn iaith ychwanegol neu'n ail iaith iddynt. Mae'n ystyried anghenion y grŵp penodol hwn o ddysgwyr ac yn archwilio'r ffordd y cânt eu cefnogi â'u hastudiaethau. Mae'n nodi ac yn amlygu materion i fynd i'r afael â nhw neu fylchau i'w llenwi.

4 Dewiswyd pedwar sector ar gyfer samplau; colegau addysg bellach, colegau chweched dosbarth, chweched dosbarth a dysgu yn y gwaith. Cymerwyd tystiolaeth hefyd o rwydweithiau 14-19, Gyrfa Cymru a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol (GAALlau).

## Cefndir

### Diffiniadau

5 Mae Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) a Saesneg fel iaith dramor yn dri dull gwahanol o addysgu medrau Saesneg.

6 At ddiben yr arolwg hwn, defnyddiwyd y diffiniadau canlynol:

- SIY yw'r dull a ddefnyddir gan ysgolion yn unig. Mae dull SIY yn rhoi medrau Saesneg cymdeithasol ac academaidd. Caiff cynnydd ei fonitro trwy gyfeirio model pum cyfnod sy'n dechrau gyda phlentyn y mae 'Saesneg yn newydd iddo' tan gyfnod olaf ei rugl der llawn pan fydd y disgyblion yn gallu gweithredu ar draws y cwricwlwm i lefel cymhwysedd sydd gyfwerth â lefel cymhwysedd disgyblion sy'n defnyddio Saesneg fel ei iaith gyntaf a heb fod angen cymorth SIY;

- SSIE yw'r hyfforddiant iaith y mae bron pob darparwr ôl-16 yn ei ddefnyddio ar gyfer dysgwyr sydd wedi symud i wlad sy'n siarad Saesneg at ddibenion ar wahân i astudio academaidd. Efallai bod y Saesneg y maent yn ei siarad yn gyfyngedig, os ydynt yn siarad unrhyw Saesneg o gwbl;

- Saesneg fel iaith dramor (SID) yw'r dull hyfforddi a ddefnyddir mewn gwledydd lle na siaredir Saesneg neu yn y DU pan fo diben y dysgwr ar gyfer astudio yn ymwneud â gwella ei Saesneg fel pwnc academaidd; ac

- Anghenion caffael Saesneg yw'r term a ddefnyddir trwy gydol yr adroddiad hwn i gyfeirio at bob dysgwr sydd ag anghenion Saesneg posibl neu wirioneddol. Mae'n derm cyfunol ar gyfer dysgwyr naill ai mewn cymorth SSIE neu ddarpariaeth SIY.

### Nodi anghenion medrau sylfaenol

7 Er Gorffennaf 2005, bu'n ofynnol i ddarparwyr asesu anghenion medrau sylfaenol pob dysgwr mewn darpariaeth a ariennir gan APADGOS. Mae'r gofyniad yn berthnasol i bob dysgwr sy'n dechrau cyrsiau pum awr neu fwy yr wythnos sy'n arwain at gymhwyster achrededig. Mae'n ofynnol i ddarparwyr ddiwallu, neu roi cyfle i'r dysgwr ddiwallu unrhyw anghenion medrau sylfaenol a nodwyd[1].

8 Diffinnir Medrau Sylfaenol fel "Y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg neu Saesneg, a defnyddio mathemateg ar y lefel angenrheidiol er mwyn gweithredu a datblygu yn y gwaith ac yn y gymdeithas fel ei gilydd"[2].

---

[1] 'Polisi Sgiliau Sylfaenol a Chanllaw Sgrinio ac Asesu ar gyfer Darparwyr Dysgu' (ELWa, Gorffennaf 2005)

[2] 'Geiriau'n Galw – Rhifau'n Cyfri' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2005)

9 Mae bron pob darparwr ôl-16 yn defnyddio un o ddau offeryn asesu ar gyfer nodi anghenion medrau sylfaenol:

- Asesiad Cychwynnol yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ASS); ac
- Asesiad Cychwynnol 'medrau sylfaenol ac allweddol SKILLBUILDER (BKSB) Coleg Gorllewin Swydd Nottingham[3].

10 Mae darparwyr SSIE yn defnyddio amrywiaeth o offer asesu cychwynnol. Darganfu ymchwil a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru gan GHK Consulting Ltd bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn defnyddio asesiad cychwynnol ar ddechrau cwrs. Fodd bynnag, asesiadau anffurfiol yw'r rhain yn aml yn hytrach na phrofi cyson[4]. Mae adroddiadau arolygu Estyn hefyd yn cofnodi naill ai dim asesiad cychwynnol neu ddefnydd anghyson o asesu cychwynnol. Nid yw offer asesu cychwynnol SSIE a ddefnyddir ar hyn o bryd yn darparu dull o brofi sy'n gyson yn genedlaethol.

## Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru

11 Mae Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn grŵp blaenoriaeth yn y Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru, 'Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri'. Mae cynllun cyflwyno'r strategaeth yn cynnwys nodau i wella'r cymorth ar gyfer dysgwyr SSIE "i sicrhau bod neb yn cael ei atal rhag cymryd rhan lawn mewn cymdeithas oherwydd diffyg medrau Cymraeg neu Saesneg". Nid oes unrhyw amcan penodol yn y strategaeth i fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg. Fodd bynnag, mae'r strategaeth yn cynnwys y ddau amcan canlynol:

- gwella effeithiolrwydd darpariaeth dysgu medrau sylfaenol ddynodedig ôl-16; a
- gwella effeithiolrwydd cymorth medrau sylfaenol sydd wedi'i ymgorffori ar gyfer dysgwyr ôl-16.

[3] Darpariaeth Medrau Sylfaenol Ôl-16 – Asesiad Cychwynnol Medrau Sylfaenol, Cymorth a Systemau Monitro (cyhoeddiad Estyn, Medi 2006)

[4] 'Adolygu SSIE yng Nghymru' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Cyflwynwyd yr adroddiad gan GHK Limited, Hydref 2008)

## Prif ganfyddiadau

12 Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer addysg dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd ag anghenion caffael Saesneg yn cynnwys arweiniad strategol clir i ddod â'r asiantaethau amrywiol ac adrannau'r llywodraeth sy'n gweithio gyda'r grwpiau hyn at ei gilydd. Y Gangen Amddiffyn Lleiafrifoedd Ethnig a Phlant yn yr Isadran Cymorth ar gyfer Dysgwyr sy'n arwain y polisi ar gyfer SIY. Sgiliau Sylfaenol Cymru yn yr Isadran Dysgu Gydol Oes a Darparwyr sy'n arwain y polisi ar gyfer SSIE.[5] Mae'r cymorth ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed yng nghylch gwaith y ddwy isadran hyn. Nid oes unrhyw gysondeb ym mhrofiad y dysgwyr oherwydd y diffyg cydlyniad rhwng y ddwy isadran.

13 Nid yw'r ddarpariaeth i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion caffael iaith yn cynnwys cydlyniad a chynllun strategol clir ar lefel genedlaethol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon a dysgwyr yn teimlo bod y cymorth cyn-16 a'r cymorth mewn addysg uwch yn strwythuredig ac yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r cymorth ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed yn strwythuredig ac nid yw'n cynnwys ffocws ac arfarniad clir a chenedlaethol i lywio cynllunio gwelliant yn y dyfodol.

14 Nid ydym yn gwybod union nifer y dysgwyr sydd ag anghenion caffael Saesneg. Mae gan CDGOC y gallu i gael gwybodaeth am y dysgwyr hyn. Nid yw darparwyr bob amser yn ymwybodol o nifer y dysgwyr hyn yn ei sefydliadau ac nid yw systemau gwybodaeth reoli yn darparu'r data yn hawdd. Nid oes gan ddarparwyr syniad clir o'r raddfa angen i lywio cynllunio effeithiol.

15 Nid oes swyddog arwain arbenigol i ysgogi'r cynllunio mewn perthynas â dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg. Nodwyd bod yr angen am ddarpariaeth SSIE well yn ffocws i'r Prosiect Cefnogi Cenedlaethol ar gyfer yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Mae grŵp Ymgynghori ar Ddatblygu ar waith i fynd â'r argymhellion ymlaen. Fodd bynnag, mae ffocws y grŵp hwn ar ddarpariaeth ar wahân yn hytrach nag ar ddarpariaeth cymorth i ddysgwyr. Nid yw darparwyr yn cael unrhyw arweiniad clir wrth ffurfio dogfennau strategol lleol ar gyfer cefnogi dysgwyr sydd ag anghenion caffael Saesneg.

16 Mae colegau addysg bellach yn dibynnu gormod ar ddarpariaeth SSIE i roi cymorth i ddysgwyr sydd ag anghenion caffael Saesneg. Mae ffocws y ddarpariaeth SSIE ar fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr rhan-amser mewn dysgu cymunedol. Nid yw'r ddarpariaeth SSIE yn cynnwys strwythur addas i ddiwallu anghenion dysgwyr ar gyrsiau prif ffrwd.

17 Nid oes gan ddarparwyr ym mhob sector unrhyw bolisi na chynllun gweithredu ffurfiol ar waith ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion y dysgwyr hyn. Yn y mwyafrif o achosion, mae darparwyr yn cynnig cymorth llythrennedd cyffredinol amhriodol ac mae lleiafrif o ddarparwyr yn ceisio mynd i'r afael â'u hanghenion trwy fentrau ad hoc

[5] Mae'r Is-adran Dysgu Gydol Oes a Darparwyr yn arwain rhai agweddau ar bolisi ar gyfer SSIE. O fewn yr Is-adran Dysgu Gydol Oes a Darparwyr, mae Sgiliau Sylfaenol Cymru, fel y gangen bolisi medrau sylfaenol, yn goruchwylio'r gwaith o gyflwyno strategaeth medrau sylfaenol Cymru, Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri. Mae'r strategaeth yn cefnogi cyrhaeddiad mewn rhifedd, llythrennedd ac SSIE hyd at a chan gynnwys Lefel 1, fel y diffiniwyd yn y Fframwaith Cymwysterau cenedlaethol.

ar sail unigol. Nid oes unrhyw fonitro nac arfarnu cyson ledled Cymru o lwyddiant y mentrau hyn.

18 Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg yn amrywio rhwng darparwyr a sectorau. Nid oes unrhyw gysondeb rhwng darparwyr o sefydliadau tebyg ac mae mwy o raniad rhwng darpariaeth addysg bellach a darpariaeth ysgol.

19 Mae gwahaniaeth mewn cyllid ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion caffael Saesneg rhwng darpariaeth ysgol a darparwyr addysg bellach/dysgu yn y gwaith. Mae'r strwythur cyllid cyfredol yn arwain at anghydraddoldeb o ran cymorth addysgol rhwng y sectorau. Caiff hyn effaith niweidiol ar brofiadau, cyrhaeddiad a dilyniant dysgwyr.

20 Ychydig iawn o gynllunio neu arfarnu lleol neu genedlaethol, os o gwbl, a geir o ddysgwyr yn trosglwyddo o un lefel ddysgu i lefel arall (er enghraifft rhwng TGAU a lefel UG). Nid yw partneriaid allweddol yn helpu dysgwyr i ddeall lefel y cymorth y gallant ei disgwyl gan ddarparwyr amrywiol. Mae hyn yn rhwystro gallu'r dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dysgu.

21 Mae'r cyfathrebu rhwng partneriaid allweddol yn wan ac nid yw'r wybodaeth am gymorth blaenorol dysgwr a'i (g)allu mewn Saesneg yn cael ei throsglwyddo gyda nhw rhwng darparwyr.

22 Mae'r cysylltiadau rhwng cymorth SIY, cymorth SSIE a chymorth addysg uwch yn wael. Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng cynllunio cymorth ar gyfer dysgwyr ym mhob cyfnod trosglwyddo. Mae hyn yn golygu nad yw athrawon a dysgwyr yn gallu adeiladu ar brofiadau dysgu blaenorol. I lawer o ddysgwyr, mae hyn yn arwain at ostyngiad yn eu gwybodaeth a'u hyder, a'u gallu i ddefnyddio a throsglwyddo medrau Saesneg.

23 Mae lleiafrif o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc (PPPhI) wedi dechrau datblygu protocolau gwybodaeth ar y cyd ar gyfer dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg. Fodd bynnag, nid yw'r protocolau eto yn ddigon trylwyr i sicrhau bod y wybodaeth am anghenion caffael Saesneg dysgwyr yn llywio cynllunio eu dysgu ar adegau trosglwyddo allweddol.

24 Nid oes unrhyw offeryn asesu cychwynnol cyffredin yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru. Yn yr achosion gorau mewn darpariaeth addysg bellach, mae dysgwyr yn mynychu asesiad cychwynnol mewn adran SSIE. Mewn rhai achosion, mae'r asesiad yn drylwyr ac yn fanwl ac yn cael ei gynnal gan athrawon SSIE cymwys. Mae'r asesiad cychwynnol yn amrywio rhwng darparwyr ac mewn llawer o sefydliadau, mae'r asesu yn anffurfiol, nid oes iddo strwythur ac nid yw'n rhoi digon o wybodaeth i lywio cynllunio cymorth dysgu.

25 Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio asesiadau llythrennedd amhriodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg. Mae hyn yn arbennig o wir mewn darparwyr hyfforddi a dysgu yn y gwaith. Mae hyn yn golygu bod dysgwyr yn cael eu gwrthod ar gyrsiau gan ddarparwyr neu'u bod yn cael cynnig cyrsiau ar lefel islaw eu gallu academaidd.

26 Mewn lleiafrif o sefydliadau, mae dysgwyr sy'n methu bodloni'r safonau asesu cychwynnol ar gyfer y cwrs astudio o'u dewis yn mynychu cwrs Saesneg 12 mis yn yr adran SSIE cyn ailymgeisio'r flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, bron ym mhob un o'r

darparwyr, nid yw'r ddarpariaeth SSIE yn diwallu anghenion dysgwyr sydd angen dealltwriaeth alwedigaethol neu academaidd o Saesneg ar gyfer cyrsiau addysgol uwch.

27 Nid oes gan y staff addysgu rheng flaen y medrau i gefnogi, datblygu a gwella dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg. Mae niferoedd isel iawn o staff cymorth cymwys ar gyfer y dysgwyr hyn ac mae mwyafrif o ddysgwyr yn methu dal i fyny â chyflymder y gwersi.

28 Mae dysgwyr ac athrawon yn nodi bod hyfforddwyr a mentoriaid dysgu yn effeithiol wrth gefnogi dysgwyr i addasu yn ôl cyfnodau dysgu newydd. Fodd bynnag, prin yw'r mentoriaid sydd ar gael ac ychydig iawn ohonynt sydd â chymwysterau perthnasol i gynorthwyo'r dysgwyr hyn yn effeithiol â'u hastudio academaidd.

29 Ychydig o wybodaeth drylwyr a geir am gyrchfannau dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg. Ychydig iawn ohonynt sy'n mynd yn eu blaenau yn llwyddiannus i ddysgu yn y gwaith oni bai bod lefel y Saesneg sydd ganddynt yn eu galluogi i ymdopi â'r hyfforddiant. Nid oes unrhyw ddata ar gyfer y dysgwyr sy'n methu cael mynediad at astudio pellach na data ar gyfran y rheiny sy'n tynnu'n ôl o gyrsiau yn gynnar.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 sefydlu arweiniad strategol cenedlaethol ar gyfer dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg;

A2 datblygu cynllun strategol gydag amcanion a blaenoriaethau clir ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg;

A3 penodi swyddog arbenigol ar gyfer rhoi'r amcanion a'r blaenoriaethau hyn ar waith;

A4 adolygu'r strwythur cyllid ar draws pob sector ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg i sicrhau bod cydraddoldeb rhwng darparwyr a darparu continwwm yn y ddarpariaeth rhwng cymorth SIY, SSIE ac AU;

A5 adolygu ac ailffurfio strwythur y ddarpariaeth SSIE i wella perthnasedd y cyrsiau i bob dysgwr ag anghenion caffael Saesneg mewn colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant;

A6 datblygu a gweithredu asesu cychwynnol cadarn i bennu anghenion dysgwyr; a

A7 chasglu a dadansoddi data i fonitro effaith y ddarpariaeth yn effeithiol a llywio datblygiad yn y dyfodol.

**Dylai darparwyr:**

A8 wella medrau athrawon rheng flaen i gefnogi dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg;

A9 cryfhau'r adnoddau i sicrhau bod digon o staff cymorth cymwys arbenigol i ddiwallu anghenion y dysgwyr; a

A10 datblygu medrau mentora ar gyfer cymheiriaid, hyfforddwyr dysgu, cyflogwyr, gwasanaethau ieuenctid a staff Gyrfa Cymru.

**Dylai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc:**

A11 ddatblygu polisi ar gyfer rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng partneriaid allweddol;

A12 arfarnu a gwella cynllunio'r trosglwyddo ar gyfer dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg;

A13 sicrhau bod arolygon cyrchfan Gyrfa Cymru yn nodi dilyniant y grŵp hwn o ddysgwyr; a

A14 datblygu a gweithredu strategaeth i sicrhau bod dysgwyr sy'n agored i niwed yn cael cymorth wedi'i dargedu.

## Rheoli'r ddarpariaeth

30 Er bod y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr cyn-16 ac ôl-16 yn effeithiol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr yn yr ystod oedran 16 i 19 oed, lle mae gorgyffwrdd o ran arweiniad Is-adrannol y Llywodraeth, yn wan ac yn ddatgymalog. Ar lefel strategol, mae dwy o isadrannau ar wahân Llywodraeth Cynulliad Cymru yn arwain y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed sydd ag anghenion caffael Saesneg. Y Gangen Diogelu Lleiafrifoedd Ethnig a Phlant yn yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, sy'n arwain y polisi ar gyfer SIY. Sgiliau Sylfaenol Cymru yn yr Is-adran Dysgu Gydol Oes a Darparwyr sy'n arwain y polisi ar gyfer SSIE.

31 Mae diffyg cynllun clir, cenedlaethol, strategol yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed sydd ag anghenion caffael Saesneg. Nid oes gan adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am ddysgwyr ag anghenion caffael Saesneg strwythur clir ar gyfer datblygu a monitro darpariaeth gydlynol. Mae diffyg mesurau ar gyfer arfarnu effeithiol yn rhwystro ffocws clir ar gynllunio a gwella gwasanaethau ar gyfer dysgwyr yn y dyfodol.

32 Nid yw'r systemau data ar draws pob sector yn gallu nodi'n gywir nifer y dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed sydd ag anghenion caffael Saesneg. Mae ysgolion yn diweddaru systemau gwybodaeth reoli ar hyn o bryd i gynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion trwy'r pum cyfnod dysgu SIY. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu fel rhan o CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion). Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, megis dechrau y mae hwn. Nid yw data CDGOC yn gallu dethol y wybodaeth sydd ei hangen i asesu neu arfarnu'r raddfa angen. Nid yw llawer o ddarparwyr yn ymwybodol o nifer y dysgwyr sydd angen cymorth iaith yn eu sefydliadau eu hunain ac nid yw'r rhan fwyaf o systemau gwybodaeth reoli yn darparu'r data yn hawdd. Mae diffyg data ar nifer y dysgwyr sydd ag anghenion caffael Saesneg yn rhwystro cynllunio effeithiol ar lefel genedlaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, adran a darparwr.

33 Nid yw strwythur cyfredol darpariaeth SSIE yn diwallu anghenion dysgwyr ar gyrsiau prif ffrwd yn effeithiol. Mae bron pob un o'r colegau addysg bellach yn dibynnu'n fawr ar fodel cymorth SSIE i fynd i'r afael â datblygu medrau iaith ar gyfer dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg. Fodd bynnag, mae ffocws y ddarpariaeth SSIE ar fynd i'r afael ag anghenion Saesneg cymdeithasol dysgwyr rhan-amser mewn darpariaeth gymunedol.

34 Nid oes swyddog arwain arbenigol i ysgogi'r cynllunio ymlaen ar draws y sectorau mewn darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg ledled Cymru. Nodwyd bod yr angen am ddarpariaeth SSIE well yn ffocws i'r Prosiect Cefnogaeth Cenedlaethol i'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Ffurfiwyd grŵp Ymgynghori ar Ddatblygu i fynd â'r argymhellion ymlaen. Fodd bynnag, mae ffocws y grŵp hwn ar ddarpariaeth ar wahân yn hytrach nag ar ddarpariaeth cefnogi dysgwyr. Nid yw darparwyr yn cael unrhyw arweiniad clir i'w helpu i ffurfio strategaethau, polisïau a blaenoriaethau lleol.

35 Nid oes gan ddarparwyr unigol unrhyw bolisi na chynllun gweithredu ffurfiol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg.  Yn y mwyafrif o achosion, mae darparwyr ôl-16 yn rhoi cymorth llythrennedd cyffredinol amhriodol i ddysgwyr.  Mae lleiafrif o ddarparwyr yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr trwy fentrau ad hoc yn unigol.  Nid oes unrhyw fonitro cyson ledled Cymru o lwyddiant y strategaethau hyn.

36 Mae ansawdd y ddarpariaeth i fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg yn anghyson rhwng darparwyr.  Ychydig o unffurfiaeth a geir rhwng darparwyr o sectorau tebyg ac mae mwy o raniad rhwng addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith ac ysgolion.  Nid oes gan fwyafrif y darparwyr dysgu yn y gwaith unrhyw ffordd o roi cymorth arbenigol i'r dysgwyr hyn na mynediad effeithiol iddynt naill ai at arbenigedd SSIE neu SIY.

37 Mae gwahaniaeth o ran cyllid ar gyfer dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg rhwng darpariaeth ysgol a darparwyr addysg bellach/dysgu yn y gwaith.  Mae'r strwythur ariannu cyfredol yn arwain at anghydraddoldeb o ran cymorth addysgol rhwng y sectorau.  Mae llawer o ddysgwyr dan anfantais yn y cymorth iaith a gânt.  Caiff hyn effaith niweidiol ar gyfraddau cadw, cyrhaeddiad a dilyniant dysgwyr.

## Trosglwyddo rhwng darparwyr a chyfnodau addysg

38 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cymorth cyn-16 yn strwythuredig ac yn effeithiol. Dengys tystiolaeth astudiaeth achos fod athrawon a dysgwyr yn teimlo bod y cymorth a gynigir gan sefydliadau addysg uwch lleol yn ddefnyddiol a'i fod yn diwallu anghenion dysgwyr yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r cymorth ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed wedi'i strwythuro.

39 Mae'r arfer o drosglwyddo gwybodaeth rhwng darpariaeth SIY a darparwyr addysg bellach/dysgu yn y gwaith yn wael ar gyfer dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oes unrhyw wybodaeth yn symud gyda'r dysgwr o un lefel astudio i lefel arall. Nid yw'r dysgwr a'r athro wedyn yn gallu adeiladu'n effeithiol ar brofiad blaenorol y dysgwr. Mae hyn yn rhwystro gallu dysgwyr i barhau â'u dysgu trwy lwybr dilyniant strwythuredig o gymhwysedd Saesneg. Mae'r dysgwyr hyn dan anfantais o ddechrau cwrs.

40 Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, mae Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn datblygu cynlluniau ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddysgwyr sydd ag anghenion caffael Saesneg wrth iddynt drosglwyddo rhwng darparwyr addysg. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, mae'r Rhwydwaith 14-19 yn canolbwyntio ar Elfen Allweddol 5 yn Llwybrau Dysgu 14-19; Mynediad at Gymorth Personol (cymorth dysgwyr). Eu nod yw dechrau cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgwyr o grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig Prydeinig (LIEP) trwy roi cymorth trosglwyddo o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 12. Fodd bynnag, megis dechrau y mae datblygiadau ac nid ydynt eto yn ddigon cadarn i ysgogi'r cynllunio sy'n ofynnol.

41 Mae ymchwil diweddar gan y Gwasanaeth Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig yn nodi bod gostyngiad ym medrau Saesneg pob dysgwr wrth iddynt drosglwyddo rhwng lefelau astudio[6]. Dengys hyn y byddai pob un o'r dysgwyr yn elwa ar gael cymorth ym mhob cyfnod trosglwyddo i gynnal lefelau eu medrau yn Saesneg.

42 Nid ydym yn gwybod beth yw nifer y dysgwyr sy'n trosglwyddo o ddarpariaeth cyn-16 i golegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a chweched dosbarth oherwydd nad yw'r data hyn yn cael eu casglu a'u dadansoddi'n ffurfiol. Yn yr un modd, nid oes unrhyw gofnod o'r dysgwyr hynny sy'n parhau i gael cymorth. Dengys tystiolaeth anecdotaidd o ddarparwyr bod mwy o ddysgwyr mewn darpariaeth ysgol ôl-16 yn parhau â chymorth dysgu na'u cyfoedion mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ysgolion, nid oes unrhyw strwythur ffurfiol ar waith i sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cael cymorth digonol neu effeithiol.

43 Dywedodd mwyafrif y dysgwyr sy'n parhau i gael cymorth ar ddiwedd eu dysgu yn yr ysgol eu bod naill ai wedi gwrthod, neu dynnu'n ôl o unrhyw fath o gymorth gyda'u darparwyr addysg bellach. Fodd bynnag, mae mwyafrif y dysgwyr sy'n gwrthod cymorth yn barnu eu gallu i ymdopi yn ôl eu llwyddiant ar gyrsiau lefel is blaenorol. Mae dysgwyr hefyd yn teimlo bod darparwyr a chyfoedion yn disgwyl iddynt allu ymdopi ar eu pen eu hunain. Mae asesiadau cychwynnol yn annigonol wrth helpu iddynt nodi eu hanghenion cymorth eu hunain.

[6] Providing the Needs of Pupils from Ethnic Minority Backgrounds Studying in Sixth Forms within LEA Maintained Schools, J.L. Martin MA.Ed, Ebrill 2008

44 Ychydig o arfarnu a geir, os o gwbl, o ba mor dda y mae dysgwyr yn trosglwyddo rhwng lefelau dysgu, er enghraifft, rhwng TGAU a lefel UG neu rhwng TGAU a dysgu yn y gwaith. Nid yw llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth o lefel y cymorth y gallant ddisgwyl ei chael. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn teimlo eu bod wedi gwneud dewis addysgol anghywir ac mae hyn yn arafu eu cyrhaeddiad. Ychydig iawn o ddysgwyr ar gyrsiau addysg bellach sy'n dychwelyd i glybiau ar ôl yr ysgol er mwyn cael cymorth anffurfiol.

45 Mewn rhai achosion, ceir cysylltiadau da rhwng Gyrfa Cymru a darpariaeth SIY. Mae darparwyr SIY yn trefnu i gyfieithwyr a dehonglwyr weithio mewn ysgolion gydag ymgynghorwyr Gyrfa Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn deall eu cyfweliadau a'u dewisiadau gyrfa. Fodd bynnag, nid yw'r cymorth hwn yn ymestyn y tu hwnt i ysgolion.

## Asesiad cychwynnol o anghenion dysgwyr

46 Nid oes dull cyffredin rhwng darparwyr ôl-16 ar gyfer asesu medrau dysgwyr pan fyddant yn dechrau cwrs. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion a sefydliadau chweched dosbarth offer asesu cychwynnol sydd wedi'u cynllunio a'u dylunio'n dda yn seiliedig ar y model pum cyfnod o addysgu SIY ac sydd wedi'i mapio yn ôl y fframwaith medrau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a sefydliadau chweched dosbarth yn ystyried addysg flaenorol a phrofiad dysgu blaenorol y dysgwyr wrth lunio rhaglen gymorth.

47 Nid oes gan y mwyafrif o golegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith offeryn asesu cychwynnol penodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn defnyddio un o'r offerynnau asesu llythrennedd safonol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer eu defnyddio gyda dysgwyr Prydeinig, mamiaith Saesneg. Mae athrawon a gweithwyr cymorth wedi nodi bod yr asesiadau hyn yn anhygyrch i lawer o ddysgwyr ag anghenion caffael iaith. Caiff hyn effaith niweidiol ar ganlyniad yr asesiad ac mae'n cynhyrchu canlyniad anghywir islaw gwir allu academaidd y dysgwr.

48 Yn yr achosion gorau, mae darparwyr addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn cyfeirio dysgwyr at arbenigwyr SSIE cymwys am asesiad cychwynnol. Fodd bynnag, mae'r offer asesu cychwynnol a'r dulliau y mae darparwyr SSIE yn eu defnyddio i asesu medrau iaith yn anghyson rhwng y rhan fwyaf o ddarparwyr ledled Cymru. Mae mwyafrif y darparwyr yn cynllunio eu deunydd asesu SSIE mewnol eu hunain i asesu medrau dysgwyr mewn Saesneg cymdeithasol. Nid oes ganddynt gynnwys Saesneg academaidd na galwedigaethol. Mewn llawer o achosion, mae'r asesu yn anffurfiol ac ar ffurf 'sgwrs' gyfeillgar.

49 Mewn darpariaeth addysg bellach, mae lleiafrif o ddysgwyr yn methu cyflawni marciau digon uchel yn eu hasesiad cychwynnol er mwyn iddynt allu ymrestru ar y cwrs prif ffrwd o'u dewis. I rai dysgwyr, mae darparwyr yn eu cynghori i ddilyn cwrs lefel is sy'n addas ar gyfer eu gallu Saesneg ond islaw eu gallu academaidd. Nid yw darparwyr yn crynhoi nifer y dysgwyr sy'n gwneud cais i ddilyn cyrsiau ond yn methu cyrraedd y safonau mynediad neu'r rheiny nad ydynt yn derbyn cynnig cyrsiau eraill. Nid yw cyrchfan terfynol y dysgwyr hyn yn cael ei fonitro na'i ddadansoddi.

50 Mae rhai darparwyr yn cynnig dewis cwrs Saesneg 12 mis mewn darpariaeth SSIE ar gyfer dysgwyr nad oes ganddynt lawer o allu iaith. Nod y cyrsiau hyn yw darparu'r medrau sydd eu hangen ar gyfer y dysgwyr i gael mynediad at y cwrs prif ffrwd o'u dewis. Mewn ychydig iawn o achosion, cyrsiau amser llawn yw'r rhain. Roedd rhai dysgwyr yn teimlo eu bod wedi elwa ar y dull hwn ac mae llawer ohonynt wedi mynd yn eu blaenau yn llwyddiannus yn ddiweddarach i ennill cymwysterau ar gyrsiau prif ffrwd. Fodd bynnag, roedd lleiafrif ohonynt yn teimlo bod y cwrs yn eu dal yn ôl flwyddyn yn eu hastudiaethau, ac mewn rhai darparwyr, mae rhestr aros chwe mis ar gyfer y cyrsiau hyn. Mae hyn yn arwain at fwy o oedi yng nghynnydd dysgwyr.

## Cymorth ar gyfer dysgwyr

51 Mae'r math o gymorth caffael Saesneg a gynigir i ddysgwyr yn amrywio rhwng darparwyr a sectorau. Mae pob un o'r darparwyr yn ystyried pob dysgwr yn unigol ac yn cynllunio i weddu'r cymorth i anghenion y dysgwr. Fodd bynnag, mae'r cymorth a ddarperir wedi'i gyfyngu i'r adnoddau sydd ar gael ac fe gaiff ei rwystro gan ddiffyg cyllid.

52 Y ddau fath o gymorth a ddefnyddir amlaf mewn colegau addysg bellach, ysgolion a darparwyr dysgu yn y gwaith yw cymorth yn y dosbarth gyda chynorthwyydd dysgu a chymorth y tu allan i'r dosbarth yn yr adran cymorth dysgu. Caiff lleiafrif o ddysgwyr mewn darpariaeth addysg bellach gymorth yn y dosbarth mewn grwpiau bach, maent yn mynychu dosbarthiadau penodol mewn adran SSIE neu'n mynychu dosbarthiadau a gefnogir gan diwtoriaid Saesneg TGAU.

53 Ychydig iawn o ddysgwyr ym mhob sector sy'n cael cymorth gan athrawon a staff cymorth sydd â chymwysterau perthnasol ar gyfer addysgu a chefnogi dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg.

54 Mae mwyafrif o diwtoriaid cyrsiau prif ffrwd mewn ysgolion, colegau addysg bellach a dysgu yn y gwaith yn teimlo bod dysgwyr yn cael y math anghywir o gymorth. Maent yn gweld bod diffyg cydlyniad rhwng y pwnc craidd a'r cymorth iaith ac yn teimlo bod dysgwyr yn gwneud cynnydd araf o'r herwydd.

55 Mae dysgwyr a thiwtoriaid ym mhob un o'r darparwyr yn dweud bod cymorth mentor da yn gyfrwng effeithiol wrth gymell dysgwyr. Roedd un dysgwr yn teimlo mai'r cyngor gorau i roi i ddysgwyr newydd oedd 'dod o hyd i ffrind sy'n siarad Saesneg'. Mae llawer o ysgolion wedi datblygu rhaglenni mentora, gyda staff, cyfoedion a gwirfoddolwyr allanol yn cefnogi dysgwyr yn effeithiol. Mae'r cyfraddau cadw dysgwyr ar gyrsiau yn well lle mae mentoriaid mewn rôl cymorth effeithiol.

56 Mae'r Gwasanaeth Ymgynghori Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS) yn ystyried rôl mentoriaid cymorth dysgu mewn ysgolion yn hollbwysig. Ar hyn o bryd, mae gan EMAS fentoriaid cymorth dysgu yn gweithio gyda grŵp o fechgyn Somali yng Nghaerdydd. Mae EMAS yn rhedeg clybiau gwaith cartref effeithiol ar gyfer 100 o bobl ifanc. Mae effaith y cymorth wedi bod yn gadarnhaol ac mae ysgolion wedi sôn am welliant yn eu hymglymiad â dysgu, presenoldeb a chyrhaeddiad ysgolion.

57 Mae bron pob un o'r ysgolion yn cael trafferth darparu mentoriaid digonol yn sgil y dyraniad cyllideb a gânt. Mewn rhai ardaloedd, mae gan y Rhwydweithiau Dysgu 14-19 strategaethau clir ar gyfer cefnogi dysgwyr trwy ddefnyddio mentoriaid a hyfforddwyr dysgu. Yn yr achosion gorau, daw mentoriaid dysgu o gymunedau'r dysgwyr eu hunain ac maent yn ymgysylltu â'r gymuned yn ogystal â'r dysgwr unigol. Mewn un ardal, daeth 100 o rieni o'r gymuned Somali i fynychu digwyddiad 'Helpu eich Plentyn gyda Gwaith Cartref'.

## Cynnydd wrth ddysgu

58 Mae tiwtoriaid yn teimlo bod dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg yn gwneud cynnydd arafach na dysgwyr sy'n ddwyieithog neu y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Dywed llawer o diwtoriaid bod dysgwyr yn datblygu strategaethau ymdopi ond bod y rhain yn aml yn amhriodol. Mae un dysgwr a gafodd ei gyfweld ar gyfer yr ymchwil yn ysgrifennu aseiniadau yn ei famiaith ac wedyn yn eu cyfieithu i'r Saesneg. Mae dysgwr arall yn 'defnyddio pob math o beiriannau gwirio sillafu'. Mae'r strategaethau ymdopi yn achosi oedi yng nghynnydd y dysgwyr.

59 Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cyfieithu rhannau o wersi. Yn yr achosion gwaethaf, maent yn cyfieithu llawer o wybodaeth ac yn yr achosion gorau, maent yn cyfieithu geiriau technegol. Caiff hyn effaith niweidiol ar eu cynnydd oherwydd nid ydynt yn gallu dal i fyny â chyflymder y wers. Mewn rhai achosion, rhaid iddynt gopïo gwaith gan ddysgwr arall. Mae'r dysgwr, o ganlyniad, yn cael gwybodaeth ond yn colli'r ddealltwriaeth sy'n galluogi iddo drosglwyddo'r medrau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

60 Dywedodd lleiafrif o diwtoriaid fod cyflymder y cwrs yn mynd y tu hwnt i allu'r dysgwyr i ddysgu Saesneg a'i fod yn eu hatal rhag cyrraedd eu llawn botensial.

61 Nid yw nifer y dysgwyr ag anghenion caffael Saesneg a ddaeth yn rhan o'r ystadegau NCAH (Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg neu Hyfforddiant) yn glir. Mae tiwtoriaid yn pryderu nad yw nifer anghymesur o'r dysgwyr hyn yn trosglwyddo'n llwyddiannus i ddewisiadau dilyniant ôl-16. Maent mewn perygl o dynnu'n ôl o raglenni yn gynnar ac ymddieithrio. Mae gan Rwydwaith 14-19 Caerdydd fodel llwyddiannus ar gyfer gweithio gyda dysgwyr NCAH ac mae'n sôn bod 80% o ail-ymgysylltu llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystadegau i nodi faint o'r dysgwyr hyn sydd ag anghenion caffael Saesneg.

## Geirfa

**APADGOS:** Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC):** Cronfa ddata yw hon sy'n cael ei rheoli gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n cynnwys cofnodion o'r holl ymrestriadau a chyflawniadau dysgwyr ôl-16.

**CYBLD**: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Mae data CYBLD yn ategu'r Gronfa Ddata Genedlaethol ar Ddisgyblion.

**Lefel UG:** Tystysgrif Gyffredinol Addysg ar lefel uwch gyfrannol

**Llwybrau dysgu 14-19:** Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu a gwella cyfleoedd addysg a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 19 oed y cyfeirir atynt yn 'Y Wlad sy'n Dysgu (2001) ac 'Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19 (2002)

**Prosiect Cefnogaeth Cenedlaethol ar gyfer SSIE:** Prosiect sy'n cael ei ariannu gan Sgiliau Sylfaenol Cymru a oedd yn anelu at gryfhau'r cymorth sydd ar gael i oedolion a phlant o gymunedau lleiafrifoedd ieithyddol wrth ymateb i astudiaeth gwmpasu SSIE/SIY, SIY a SSIE yng Nghymru, a gomisiynwyd ym mis Hydref 2002

**Rhwydweithiau Dysgu 14-19**: Grŵp strategol o ddarparwyr addysg a hyfforddiant mewn ardal leol, a sefydlwyd fel rhan o 'Llwybrau Dysgu 14-19'

**Sgiliau Sylfaenol Cymru:** Mae ganddo gyfrifoldeb arwain i weithredu 'Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri, y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru, yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**TGAU:** Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Gill Downer AEM | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Alun Connick AEM | |